# DEDDF COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU ETC. 2013

# Gorchymyn Gwynedd (Cymunedau) 2026

*Gwnaed - - - - **[24/06/2026]***

*A ddaw i rym yn unol ag erthygl 1(2)*

Mae Cyngor Gwynedd ("y Cyngor"), yn unol ag adran 25 Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("Deddf 2013"), wedi cyflwyno adroddiad i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn") dyddiedig mis Ebrill 2026 ar ei arolwg o drefniadau cymunedol yn Sir Gwynedd a'i argymhellion ar gyfer newidiadau iddynt.

Mae'r Comisiwn wedi cytuno i weithredu argymhellion y Cyngor heb addasiadau.

Mae mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i argymhellion y Cyngor gael eu cyflwyno i'r Comisiwn.

Mae'r Comisiwn yn gwneud y Gorchymyn canlynol wrth arfer y pŵer a roddir iddo gan adran 38(1) Deddf 2013.

**Teitl a chychwyn**

**1.**–(1) Teitl y Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gwynedd (Cymunedau) 2026.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym yn yr etholiad llywodraeth leol nesaf.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn–

Mae "Map A" yn golygu'r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Gwynedd ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn;

Mae "Map B" yn golygu'r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Gwynedd ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn;

Mae "Map C" yn golygu'r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Gwynedd ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn;

lle dangosir ffin ar fap sy'n mynd ar hyd ffordd, llinell reilffordd, troedffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, dylid ei thrin fel petai'n mynd ar hyd llinell ganol y nodwedd;

mae gan eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Gorchymyn hwn yr un ystyr ag yn Rhan 3 Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013, ac eithrio i'r graddau y mae bwriad croes yn ymddangos.

**Newidiadau i ardal llywodraeth leol**

**3.** Gwneir newidiadau yn ardal llywodraeth leol Sir Gwynedd yn unol â darpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn.

**Cymuned Bethesda – newid i ardaloedd ward gymunedol**

**4.** Mae'r rhan o ward gymunedol Uchaf yng Nghymuned Llanllechid a ddangosir wedi'i lliwio'n wyrdd ar Fap A:

(a) yn cael ei throsglwyddo i ward gymunedol Rachub yng Nghymuned Bethesda.

**Cymuned Llanegryn – newid i ardaloedd ward gymunedol**

**5.** Mae'r rhan o ward gymunedol Morfa yng Nghymuned Tywyn a ddangosir wedi'i lliwio'n borffor ar Fap B:

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Llanegryn.

**6.** Mae'r rhan o Gymuned Bryn-crug a ddangosir wedi'i lliwio'n binc ar Fap B:

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Llanegryn.

**Cymuned y Felinheli – newid i ardaloedd ward gymunedol**

**7.** Mae'r rhan o ward gymunedol y Faenol yng Nghymuned Pentir a ddangosir wedi'i lliwio'n las ar Fap C:

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned y Felinheli.

Wedi'i selio â sêl Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar yr **24ain** diwrnod o **Fehefin 2026**

[**24/06/2026**]


*Karen Jones*

Cadeirydd

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

## ATODLEN 1


## MAP A – NEWIDIADAU I ARDALOEDD WARD GYMUNEDOL – WARDIAU CYMUNEDOL UCHAF (LLANLLECHID) A RACHUB (BETHESDA)



## ATODLEN 2

## MAP B – NEWIDIADAU I ARDALOEDD WARD GYMUNEDOL – WARD GYMUNEDOL MORFA (TYWYN) A CHYMUNEDAU BRYN-CRUG A LLANEGRYN


### Llanegryn




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

**ATODLEN 3**

**MAP C – NEWIDIADAU I ARDALOEDD WARD GYMUNEDOL – WARDIAU CYMUNEDOL Y FAENOL (PENTIR) A'R FELINHELI**



## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed yn unol ag adran 38(1) Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("Deddf 2013"), yn gweithredu argymhellion a wnaed gan Gyngor Gwynedd ("y Cyngor"). Adroddodd y Cyngor ym mis Ebrill 2026 ar ei arolwg o dan adran 25 Deddf 2013 o ffiniau cymunedol.

Argymhellodd yr adroddiad newidiadau i ffiniau wardiau cymunedol Rachub yng Nghymuned Bethesda, Uchaf yng Nghymuned Llanllechid, Morfa yng Nghymuned Tywyn, y Faenol yng Nghymuned Pentir, a Chymunedau Bryn-crug, Llanegryn, a'r Felinheli. Mae'r gorchymyn hwn yn gwneud newidiadau i ffiniau'r cymunedau a'r wardiau cymunedol hynny.

Mae copïau argraffedig o fapiau ffiniau A i C y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â nhw wedi'u hadneuo a cheir eu harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Gwynedd [**ac yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol)**].